PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# CANLLAWIAU

# AR GYFER

# AROLYGWYR

Cofrestrfa Academaidd

Adolygwyd Mai 2018

## GWYBODAETH GYFFREDINOL

**Swyddog Arholiadau :** Sarah Custy

**Est. ffôn:** 8803 **E-bost:** s.j.custy@bangor.ac.uk

---

### M Y N E G A I

1. Cyfrifoldebau Arolygwyr
2. Cyhoeddiadau Ychwanegol yn yr Ystafell Arholi
3. Presenoldeb
4. Paratoi
5. Cynorthwywyr Arholiadau
6. Rhoi Mynediad i Ymgeiswyr
7. Deunydd Awdurdodedig, Cyfrifianellau, etc.
8. Amser
9. Mynediad Hwyr, Gadael yn Gynnar ac Amser Ychwanegol
10. Llyfrau Ateb
11. Absenoldeb Dros Dro
12. Salwch
13. Ymholiadau gan Ymgeiswyr
14. Ymarferion Annheg
15. Aflonyddiadau
16. Cyhoeddiadau
17. Trefn ar Ddiwedd Arholiadau

Rheolau ar gyfer ffonau symudol

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr yn yr arholiadau

Rhybudd i bob myfyriwr : Peidiwch â Thwyllo

# CANLLAWIAU AR GYFER AROLYGWYR

Bwriad y nodiadau canlynol yw helpu arolygwyr gyda'u dyletswyddau. Dylid cysylltu â Sarah Custy yn y lle cyntaf (ffôn 8803, e-bost: s.j.custy@bangor.ac.uk) os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r nodiadau hyn.

## [1] DYLETSWYDDAU AROLYGWYR

Y mae arolygwyr yn gyfrifol am sicrhau bod arholiadau'n cael eu cynnal mewn modd fel na ellir awgrymu ymddygiad amhriodol, annhegwch, mantais nac anfantais i unrhyw ymgeisydd. Mae'n hanfodol bwysig bod arolygwyr mewn sefyllfa lle gallent roi cymorth yn syth a goruchwylio'r holl ymgeiswyr yn gyson. Gofynnir i arolygwyr beidio â dod â sgriptiau arholiad eraill i'r ystafelloedd arholi. Os oes ymholiadau'n codi yn ystod arholiad y mae'n bwysig bod o leiaf un arolygwr yn gallu cadw golwg ar ymddygiad ymgeiswyr drwy'r amser. Os oes angen, bydd yn rhaid i arolygwyr allu datgan na fu unrhyw dystiolaeth o ymarfer amhriodol yn ystod arholiad.

## [2] CYHOEDDIADAU YCHWANEGOL MEWN YSTAFELL ARHOLI

Os, am unrhyw reswm, bod angen gwneud cyhoeddiad cyffredinol, cywiriad i bapur neu eglurhad yn yr ystafell arholi, MAE'N RHAID i'r arolygwyr sicrhau bod y cyhoeddiad yn cael ei ailadrodd yn unrhyw fan arall lle cynhelir yr arholiad. Gellir defnyddio'r Cynorthwywr Arholiad i alw ar y Swyddog Arholiadau am help gyda'r mater hwn.

## [3] PRESENOLDEB

Y mae gofyn i arolygwyr gyrraedd ystafell arholi o leiaf 20 munud cyn cychwyn yr arholiad. Y mae'n rhaid i o leiaf un arolygwr fod yn yr ystafell arholi o'r amser hwnnw ymlaen.

## [4] PARATOI

Bydd staff cynorthwyol yn gyfrifol am gasglu papurau cwestiwn o gyntedd Neuadd PJ, a mynd â hwy i'r ystafell arholi. Bydd staff yr adran Ystadau wedi dosbarthu'r llyfrau ateb.

Bydd llyfrau ateb ychwanegol ar gael yn nhu blaen pob ystafell arholi. Er mwyn diogelwch, bydd llyfrau ateb gyda chloriau lliwiau gwahanol yn cael eu defnyddio ar ddiwrnodau gwahanol, a dylai arolygwyr, wrth rannu llyfrau ychwanegol, ddefnyddio rhai o'r un lliw. Bydd papur graff a phapur erwydd ar gael i'w defnyddio pan fo'r angen. Darperir unrhyw gyfarwyddiadau arbennig ynglŷn â hyd arholiad, defnydd cymhorthion ychwanegol, etc.

[5] **CYNORTHWYWYR ARHOLIADAU**

Lle bo angen hynny, bydd Cynorthwyydd Arholiadau o fewn galw i'r ystafell arholi. Bydd ei (d)dyletswyddau yn cynnwys:

[a] hebrwng myfyrwyr i'r toiled ac yn ôl, ac i Ystafell y Cleifion pan fo'r angen;
[b] cynorthwyo gyda chasglu'r ffurflenni presenoldeb/gwirio cardiau adnabod myfyrwyr ar gychwyn arholiadau;
[c] cynorthwyo gyda chasglu sgriptiau ar ddiwedd arholiadau, a'u cyfrif – er mwyn sicrhau bod y rhif yn cyfateb â'r ffurflenni priodol;
[ch] cyfathrebu ar unwaith gyda'r Swyddog Arholiadau os oes argyfwng (e.e. os oes amheuaeth o ymarferiad annheg, os oes ymholiadau yn codi o bapurau arholiad.)

Ar gychwyn pob sesiwn arholi bydd y Cynorthwyydd yn ei gyflwyno/chyflwyno ef/hi ei hun i'r arolygwyr, ac yn dangos lle y mae'n eistedd.

[6] **RHOI MYNEDIAD I YMGEISWYR**

Rhoddir mynediad i ymgeiswyr i'r ystafell arholi 10 munud (neuaddau PJ a Phowis) neu 5 munud (ystafelloedd eraill) cyn amser cychwyn yr arholiad, a dylid bod wedi gwneud yr holl baratoi erbyn hynny. Ar wahân i'r hyn a ddarperir ym mharagraff 3 a 7, ni chaiff ymgeiswyr ddod â llyfrau, papur, nac unrhyw beth arall heblaw offer ysgrifennu a thynnu llun i mewn i'r ystafell arholi. Dylid gadael bagiau, cotiau, etc. hefyd y tu allan i'r ystafell arholi, ond gellir, yn ôl penderfyniad yr arolygwr, eu gadael yn nhu blaen yr ystafell arholi (i ffwrdd oddi wrth ddesgiau'r ymgeisydd) os yw'r amgylchiadau yn mynnu hynny.

Caniateir i fyfyrwyr ddod â diodydd mewn poteli clir i mewn i ystafelloedd arholi.

Bydd staff cynorthwyol yn casglu ffurflenni presenoldeb, a bydd cardiau adnabod myfyrwyr yn cael eu gwirio wrth i'r ymgeiswyr fynd i mewn i'r ystafell.

[7] **DEUNYDD AWDURDODEDIG, CYFRIFIANELLAU, ayyb.**

Caniateir defnyddio'r deunydd a'r cymhorthion cyfrif a awdurdodir gan y Byrddau Arholi mewn rhai arholiadau ysgrifenedig – bydd aelod o staff y Gofrestrfa Academaidd yn rhoi gwybod i'r Arolygwr â Gofal ynglŷn â hyn.

**Geiriaduron – Dylai arolygwyr wirio'n drwyadl yr holl eiriaduron cyfieithu printiedig fel y daw myfyrwyr i mewn i'r ystafell arholi.**

Caiff myfyrwyr lle nad yw'r Saesneg na'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, ganiatâd i ddefnyddio geiriaduron cyfieithu printiedig **DIM OND** yn ystod arholiadau, oni bai

bod defnyddio'r rhain yn amharu ar y deilliannau dysgu a asesir. **NI CHANIATEIR GEIRIADURON ELECTRONIG.**

[8] **AMSER**

Dylai arolygwyr gyhoeddi bod arholiad wedi cychwyn yn ôl cloc yr ystafell arholi a chynnal yr arholiad yn unol â hwnnw. Gofynnir i arolygwyr gyhoeddi faint o amser sydd ar ôl 15 munud cyn diwedd pob arholiad.

[9] **MYNEDIAD HWYR, GADAEL YN GYNNAR AC AMSER YCHWANEGOL**

[a] Fel rheol gellir rhoi mynediad i ymgeiswyr os ydynt hyd at 30 munud yn hwyr ar gyfer arholiad. Ni chaniateir i unrhyw ymgeisydd adael yr ystafell arholi yn y 30 munud cyntaf fel rheol. (Gellir addasu'r amser hwn ar gyfer arholiadau byrion.)

[b] **NI** ddylid caniatáu amser ychwanegol ar ddiwedd yr arholiad i ymgeisydd ddaw i mewn yn hwyr heb ganiatâd clir y Swyddog â Gofal am yr arholiadau. Os oes ymgeisydd a ddaw i mewn yn hwyr a heb gael amser ychwanegol yn honni ei fod/bod wedi ei (d)dal yn ôl heb unrhyw fai er ei r(h)an ef/hi, y mae'n rhaid i'r arolygwr wneud cofnod o hynny ar lyfr atebion yr ymgeisydd, gan nodi'r amser y daeth i mewn.

[c] Y mae'n rhaid i ymgeisydd sy'n gadael yn gynnar adael ei (l)lyfr atebion gyda'r arolygwr. Ni chaniateir iddo/iddi ei symud o'r ystafell arholi. Dylai'r arolygwr farcio'r amser a adawodd ar y clawr. Ni chaiff yr ymgeisydd ddod yn ôl i mewn i'r ystafell.

[ch] Ni chaniateir i unrhyw ymgeisydd adael yr ystafell yn ystod y 15 munud olaf.

[10] **LLYFRAU ATEB**

Yn syth wedi i'r arholiad gychwyn, gofynnir i'r arolygwyr:

[a] symud y llyfrau ateb o'r desgiau gwag;

[11] **ABSENOLDEB DROS DRO**

Y mae'n rhaid i Gynorthwyydd Arholiadau, fydd ar ddyletswydd ger yr ystafell trwy gydol yr arholiad, neu arolygwr, fynd gydag unrhyw ymgeisydd sydd am adael yr ystafell arholi dros dro. Un ymgeisydd yn unig gaiff fod yn absennol ar y tro.

[12] **SALWCH**

Dylai'r Cynorthwyydd, a fydd ar ddyletswydd ger yr ystafell, neu'r arolygwr os yw hynny'n angenrheidiol, hebrwng unrhyw ymgeisydd sy'n gorfod gadael yr ystafell

oherwydd anhwyldeb i'r Ystafell Gleifion. Dylid marcio llyfr ateb yr ymgeisydd gyda'r amser yr aeth allan a chofnod o'r amgylchiadau. Yna, dylid rhoi'r llyfr ateb a'r holl eitemau eraill sydd ar ddesg yr ymgeisydd i'r staff.

[13] **YMHOLIADAU GAN YMGEISWYR**

Os oes gan ymgeisydd ymholiad ynglŷn â'i phapur/bapur na all yr arolygwr ei ateb ar y pryd, dylid cysylltu â'r Swyddog â Gofal am yr Arholiadau ar unwaith.

[14] **YMARFER ANNHEG**

Os yw arolygwr yn meddwl bod ymgeisydd yn ymgymryd ag ymarferion arholiad annheg dylai ddweud wrth yr ymgeisydd, o flaen tyst os yw hynny'n bosib, y bydd yr amgylchiadau yn cael eu cofnodi, ac y caiff barhau â'r arholiad hwnnw, ac unrhyw arholiadau wedi hynny, heb ragfarn gan unrhyw benderfyniad a ellir ei gymryd, ond ni fydd peidio â rhybuddio yn rhagfarnu unrhyw weithrediadau dilynol. Lle bo'n addas, bydd arolygwr yn cadw tystiolaeth yn ymwneud ag unrhyw ymarfer arholiad annheg, fel ei bod ar gael ar gyfer unrhyw archwiliad dilynol. Bydd yr arolygwr yn adrodd ynglŷn â'r amgylchiadau wrth y Swyddog â Gofal am yr Arholiadau cyn gynted ag y bo modd.

[15] **AFLONYDDIADAU**

Os yw ymddygiad ymgeisydd yn aflonyddu ar eraill, dylai'r arolygwr ei geryddu/cheryddu. Os yw'r ymgeisydd yn parhau â'r ymddygiad, gall yr arolygwr ofyn wrtho/wrthi adael yr ystafell arholi – os felly, bydd yn rhaid marcio ei (l)lyfr, ac anfon adroddiad llawn ynglŷn â'r amgylchiadau at y Swyddog â Gofal am yr Arholiadau cyn gynted ag y bo modd.

[16] **CYHOEDDIADAU**

Os yw'n bosib, dylai unrhyw gyhoeddiadau a wneir mewn ystafell arholi fod yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ceir y fersiynau dwyieithog isod:

[1] **Pan fo'r holl ymgeiswyr yn eistedd:**

- ***Ni chaniateir ffonau symudol yn yr ystafell arholiad. Os oes gennych chi un, diffoddwch o a'i roi i'r goruchwyliwr RŴAN.***
  Mobile phones are not permitted in the examination room. If you have one please switch it off and hand it to the invigilator NOW.

- ***Mae'n arfer annheg cyfathrebu efo unrhyw un yn yr ystafell arholiad trwy unrhyw gyfrwng ond trwy'r goruchwyliwr.***
  It is unfair practice to communicate with anyone in the examination room by any means other than the invigilator.

- ***Unwaith i'r arholiad hwn gychwyn, chewch chi ddim gadael yr ystafell arholiad yn ystod y tri deg munud cyntaf.***
  Once this examination has started you may not leave the examination room during the first 30 minutes

- ***Os penderfynwch adael yn gynnar, gwnewch hynny'n ddistaw a rhoi eich sgript yn y lle a nodir. Chewch chi ddim dychwelyd i ystafell yr arholiad.***
  If you decide to leave early you must do so quietly depositing your script at the indicated place. You may not return to the examination room.

- ***Chewch chi ddim gadael yr ystafell yn ystod chwarter awr olaf yr arholiad.***
  You may not leave the room during the last 15 minutes of the examination period.

- ***Rhaid i chi lenwi clawr blaen eich holl lyfrau atebion.***
  You must complete the front cover of all your examination answer books.

- ***Ar gyfer marcio dienw, plygwch y gornel a nodir ar eich llyfr atebion a'u selio – tagiwch fwy nac un llyfr atebion efo'i gilydd.***
  For anonymous marking you must fold down the indicated corner of examination answer books and seal them – multiple answer books must be tagged together.

- ***Gwnewch yn siŵr fod y papur arholiad iawn gennych. Os nad ydych yn siŵr, codwch eich llaw.***
  Please check you have the correct examination paper. If in doubt raise your hand.

[2] **Pan ei bod yn amser cychwyn:**

***Gallwch yn awr ddarllen eich papur cwestiynau a dechrau eich arholiad.***
You may now read your question paper and start your examination.

[3] **15 munud cyn diwedd yr arholiad:**

***Y mae pymtheg munud ar ôl o'r arholiad hwn. Ni chaiff unrhyw ymgeisydd adael yr ystafell yn ystod y pymtheg munud olaf.***
There are now 15 minutes left of this examination period. No candidate may leave the room during these last 15 minutes.

[4] **Ar ddiwedd cyfnod yr arholiad:**

***Mae'r amser bellach ar ben. Rhowch y gorau i ysgrifennu a chlymwch eich llyfrau ateb gyda'i gilydd a dod â hwy i'r lle priodol yn nhu blaen yr ystafell. Pan ddefnyddir papurau ateb aml ddewis dylid eu cyflwyno ODDIMEWN i'r llyfryn arholiad.***
The time is now up. Please stop writing, join your answer books together with the tag provided; cover your name by turning down the corner of the book, using the seal and bring them to the appropriate place at the front of the room. Multiple choice answer sheets when sed sould be handed-in **INSIDE** the examination booklet.

[17] **TREFN AR DDIWEDD YR ARHOLIAD**

**Ar ddiwedd yr arholiad:**

[a] Dylai ymgeiswyr adael yr ystafell arholi ar unwaith, gan adael eu llyfrau ateb yn y lle priodol yn nhu blaen yr ystafell arholi. Y mae'n ymarfer annheg i barhau i ysgrifennu ar ôl diwedd yr arholiad. Dylai arolygwr sicrhau nad oes unrhyw ymgeisydd yn symud unrhyw beth o'r stafell arholi ar wahân i'r papur cwestiwn neu ddeunydd awdurdodedig a ddaethpwyd i mewn i'r ystafell.
**Ni ddylai myfyriwr fynd â llyfr atebion o'r ystafell ar unrhyw gyfrif.**

[b] Dylai nifer y sgriptiau a gesglir fod yr un faint â nifer yr ymgeiswyr yn yr arholiad. Os nad ydyw, rhaid dweud hynny ar unwaith wrth y Swyddog â Gofal am yr Arholiadau.

---

## ER GWYBODAETH

Dangosir y canlynol i ymgeiswyr ar hysbysfyrddau:

## RHEOLAU AR GYFER FFONAU SYMUDOL



Diffoddwch bob ffôn a'i adael gyda'ch bagiau. Os oes gennych ffôn arnoch yn y neuadd arholi hon, rhowch ef i'r arolygwr NAWR.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR YN YR ARHOLIADAU**

**1. SLIPIAU MYNEDIAD**

Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno slip mynediad wedi'i lenwi wrth iddo/iddi fynd i mewn i'r Ystafell Arholi, a rhaid bod ganddynt eu cerdyn adnabod myfyriwr yn barod i'w wirio. Gellir cael y slipiau mynediad o gyntedd Prif Adeilad y Celfyddydau ac oddi allan i bob Ystafell Arholi.

**2. MYNEDIAD I YSTAFELLOEDD ARHOLI**

[a] ***Neuadd Prichard Jones*** (Ystafell Arholi 1)
Bydd yr ymgeiswyr yn dod i mewn drwy'r fynedfa ogleddol, h.y. y drws sy'n wynebu maes parcio Prichard Jones.
Gellir cael y papurau arholiad yng nghyntedd y Neuadd.

[b] ***Neuadd Powis*** (Ystafell Arholi 2)
Bydd yr ymgeiswyr yn dod i mewn trwy'r drws sydd wrth lwyfan y Neuadd a gellir cael y papurau arholiad oddi ar y llwyfan.

[c] ***Pob Ystafell Arall***
Dylai'r ymgeiswyr yn yr ystafelloedd hyn ymgynnull y tu allan i'r ystafell dan sylw ac ni chânt fynd i mewn heb ganiatâd yr arolygwr. Bydd y papurau arholiad ar gael yn nhu blaen yr ystafell arholi.
**Atgoffir ymgeiswyr na chaniateir iddynt groesi cyntedd PJ unwaith y rhennir papurau arholiadau NEU pan fydd arholiadau ymlaen yn PJ. Mae'n rhaid i'r ffordd o Hen Adeilad y Celfyddydau i'r Adeilad Newydd fod drwy'r maes parcio.**

**3. AMSERIAD YR ARHOLIADAU**

Dylai pob ymgeisydd ddod yn brydlon i'r ystafell arholi briodol.

Ni chaniateir i ymgeiswyr fynd i mewn i'r ystafell tan 10 munud cyn y mae'r arholiad i fod i gychwyn. Ni chaniateir i unrhyw ymgeisydd fynd i mewn i'r ystafell arholi fwy na hanner awr ar ôl cychwyn arholiad, na gadael tan 30 munud ar ôl yr amser a bennir ar gyfer cychwyn yr arholiad ymhob pwnc. (Gall amseroedd amrywio ar gyfer arholiadau byrrach).

Bydd yr arholwr sydd yn arolygu yn cyhoeddi faint o'r gloch yw hi chwarter awr cyn diwedd pob cyfnod arholiad. Ni chaiff unrhyw ymgeisydd adael yr ystafell arholi yn ystod 15 munud olaf arholiad.

**4. CYFLWYNO SGRIPTIAU ATEBION**

Dylid rhoi pob sgript arholiad, yn ôl cyfarwyddyd yr arholwr sydd yn arolygu, yn y lle priodol yn nhu blaen yr Ystafell Arholi.

## 5. DEUNYDDIAU ARHOLIAD

Ni chaiff myfyrwyr fynd ag unrhyw ddeunyddiau i mewn i ystafell arholi ac eithrio'r deunyddiau a awdurdodir gan arholwyr. Gwaherddir yn llwyr ddod â deunyddiau diawdurdod, neu unrhyw ffurf ddiawdurdod ar ddeunyddiau, i mewn i ystafell arholi.

## 6. ABSENOLDEB O ARHOLIADAU

Os yw ymgeisydd oherwydd salwch, damwain neu brofedigaeth agos, yn absennol o bapurau arholiad, gellir cymryd camau arbennig i ddelio â'r sefyllfa (a gall hynny gynnwys gosod papur ychwanegol). Rhaid ymgynghori ar unwaith â Swyddog y Brifysgol sydd â gofal am drefnu'r arholiadau i gael rhagor o wybodaeth.

## 7. TWYLLO

Bydd arolygwr yr arholiadau yn hysbysu ymgeisydd a amheuir o dwyllo y rhoddir gwybod i'r awdurdodau am yr amgylchiadau. Gall y cyfryw ymgeisydd barhau â'r arholiad hwnnw neu arholiadau dilynol heb ragfarn i unrhyw ymchwiliad a phenderfyniad dilynol gan y Brifysgol. Ni fydd methiant yr arolygwr i rybuddio ymgeisydd adeg yr arholiad yn niweidiol i ymchwiliad dilynol gan y Brifysgol i unrhyw gyhuddiad a wneir yn erbyn ymgeisydd. (Gweler rhybudd ar wahân dan y pennawd "PEIDIWCH Â THWYLLO").

## RHYBUDD I BOB MYFYRIWR - *PEIDIWCH Â THWYLLO*

Y mae Prifysgol Bangor yn edrych yn ddifrifol iawn ar unrhyw weithredoedd o 'ymarfer annheg' ar ran myfyrwyr yn eu gwaith cwrs neu mewn arholiadau. Y mae ***'ymarfer annheg'*** yn golygu:

1. Llen-ladrata drwy ddefnyddio gwaith pobl eraill a'i gyflwyno i'w arholi neu ei asesu gan gymryd arnoch mai eich gwaith chwi eich hun ydyw.

2. Mynd â deunydd heb ei awdurdodi (megis llyfr neu bapurau rhydd o unrhyw fath) neu unrhyw ffynhonnell wybodaeth ddiawdurdod i mewn i ystafell arholiad.

3. Cyfathrebu â rhywun arall mewn ystafell arholiad.

4. Copïo, neu ddefnyddio mewn unrhyw ffordd arall, ddefnyddiau diawdurdod neu waith unrhyw ymgeisydd arall.

5. Cymryd arnoch mai chi yw ymgeisydd arholiad arall, neu ganiatáu i rywun arall gymryd arno/arni mai chi yw ef/hi.

6. Honni eich bod wedi cynnal arbrofion, arsyllu, cyfweliadau neu unrhyw ffurf ar ymchwil pan nad ydych mewn gwirionedd wedi gwneud hynny, neu honni eich bod wedi cael canlyniadau na chafwyd mohonynt mewn gwirionedd.

Os profir unrhyw gyhuddiadau o ymarfer annheg ar ran myfyrwyr, y mae'r canlyniadau'n hynod ddifrifol: gall arwain at wahardd y myfyriwr wedyn o'r Brifysgol a'i atal rhag sefyll unrhyw arholiad Prifysgol yn y dyfodol.